
# Y Cynllun Strategol ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol


## 2025 – 2029


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Crynodeb i bobl ifanc
















# Helo

## Mae Llywodraeth Cymru eisiau i Gymru fod yn lle teg a chyfartal lle gall pawb fwynhau eu hawliau.

**Mae gan Gymru lawr i fod yn falch ohono** — rydym wedi cymryd camau gwirioneddol i fod yn wlad fwy teg, fwy cyfartal a fwy croesawgar. Ond hoffem wneud mwy. Rydym eisiau parhau i ddangos y gallwn adeiladu Cymru lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u parchu.

**Rydym eisiau rhoi'r gorau i wahaniaethau** — fel nad yw pobl yn cael eu trin yn wahanol oherwydd pwy ydyn nhw, eu diwylliant, anabledd, tlodi neu unrhyw beth.

> ℹ **Tlodi** — pan na allwch fforddio eich holl anghenion sylfaenol. Mae tlodi yn gwneud bywyd yn anoddach ac yn atal pobl rhag cael cyfleoedd. Nid yw hynny'n deg nac yn gyfartal.

## Dyma ein Cynllun Strategol ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol 2025 - 2029.

**Mae'n gosod ein nod a'n hamcanion am Gymru sy'n fwy cyfartal.**

Rydym eisiau i hwn fod yn fframwaith sy'n arwain popeth a wnawn - o wneud deddfau i gynllunio gwasanaethau - fel bod cydraddoldeb, tegwch, a hawliau dynol bob amser yn rhan o'r penderfyniadau a wnawn.

# Ein nod

**Drwy gryfhau cydraddoldeb a hawliau dynol - mae Cymru yn genedl sy'n seiliedig ar gydraddoldeb, dim gwahaniaethu, a chynhwysiant.**

Dymunwn i Gymru fod yn lle:

- mae pawb yn cael ei drin yn deg
- mae gan bawb eu hawliau
- nid oes neb yn cael ei drin yn wahanol oherwydd pwy ydyn nhw
- gall pawb gymryd rhan yn eu cymunedau
- gall pawb gymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau
- mae gan bawb gyfleoedd ym mhob rhan o'u bywydau
- mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.



# Beth yw cydraddoldeb a thegwch?

Mae **Cydraddoldeb** yn ymwneud â phawb:

- yn cael cyfle cyfartal i wneud y mwyaf o fywyd
- yn cael y gefnogaeth maen nhw ei hangen
- yn cael eu trin yn deg.

**Nid yw'n ymwneud â thrin pawb yr un fath.**

Ni allwn roi'r un esgidiau i bawb yn yr un maint. Mae angen i bobl gael yr hyn sy'n ffitio iddyn nhw ac sy'n eu helpu i gyrraedd eu nodau.



Mae **Tegwch** yn golygu deall nad ydym ni i gyd yn dechrau o'r un lle. Mae rhai pobl angen mwy o gefnogaeth i gyflawni'r un canlyniad, fel:

- pobl hŷn
- plant a phobl ifanc
- menywod a merched
- pobl ag anableddau
- pobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth o'r gwaith
- pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- LHDTC+
- pobl sy'n byw mewn tlodi.

Mae'r cynllun wedi'i adeiladu ar:

## Ein 7 Amcan (Nodau) Cydraddoldeb Cenedlaethol ar gyfer 2024-2028

**1** Rydym eisiau creu Cymru lle gall pawb ffynnu, a lle allwn leihau tlodi.

**2** Rydym eisiau creu Cymru lle:

- mae pawb yn gwybod am hawliau
- mae hawliau'n cael eu diogelu a'u hyrwyddo
- mae hawliau'n cael eu cynnwys yn ein holl bolisïau a chynlluniau.

**3** Rydym eisiau creu Cymru lle:

- mae pawb yn gwybod am wasanaethau ac yn cael eu defnyddio
- mae gan bawb yr un cymorth o ansawdd uchel.

**4** Rydym eisiau creu Cymru sy'n ddiogel i bawb. Rydym eisiau atal gwahaniaethu, erledigaeth, aflonyddu, cam-drin, troseddau casineb a bwlio.

**5** Rydym eisiau creu Cymru lle:

- gall pawb ymwneud â'r gymuned ac arweinyddiaeth a chael dweud eu dweud
- mae arweinwyr o wahanol gefndiroedd ac yn debyg i'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli.

**6** Rydym eisiau creu Cymru lle:

- mae gan bawb gyfle teg a chyfartal ar gyfer gwaith
- mae pawb yn cael ei drin yn deg yn y gwaith ac yn cael eu talu'n deg.

**7** Rydym eisiau creu Cymru sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol mewn ffyrdd sy'n deg i bawb.

# Beth yw hawliau dynol?

Mae gan bawb hawliau a nodir yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.

Maent yn eiddo i bob person yn y byd. Mae gennym ni i gyd yr hawliau hyn o'n genedigaeth hyd at ein marwolaeth. Pethau fel yr hawl i fywyd, rhyddid rhag caethwasiaeth ac artaith, rhyddid barn a mynegiant, yr hawl i weithio ac addysg, a nifer mwy.

### Plant

Mae gan blant a phobl ifanc hawliau ychwanegol a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Rydym wedi ymrwymo i wneud yn siŵr bod gan bobl eu Hawliau yng Nghymru. Mae hynny'n cynnwys Hawliau Plant.

**Erthygl 2** — mae gan bob plentyn yr hawliau sy'n cael eu nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

**Erthygl 12** — mae gan bob plentyn yr hawl i gael rhywun i wrando arnynt a chael eu cymryd o ddifrif.

### Pobl Anabl

Mae gan bobl anabl hawliau ychwanegol a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

Mae'r cynllun hwn wedi'i adeiladu ar:

## Ein Datganiad ar Hawliau Dynol

**"Mae hawliau dynol yn hawliau sy'n perthyn i bawb.**

**Byddwn yn parchu, yn amddiffyn ac yn cyflawni ein dyletswyddau hawliau dynol a chydraddoldeb fel y gall pawb yng Nghymru fyw eu bywydau gydag urddas, rhyddid, diogelwch a heb wahaniaethu.**

**Rydym yn ymrwymo i ddull hawliau dynol sy'n rhoi pobl wrth wraidd popeth a wnawn, gan wella llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol."**









# Gweithredoedd - gwella cydraddoldeb a hawliau drwy ein gwaith

## Rheoliadau a pholisïau newydd

Rhaid i bopeth a wnawn fel llywodraeth wella bywydau pobl, cynorthwyo cydraddoldeb a diogelu hawliau pobl.

➡ Byddwn yn gwneud yn siŵr bod yr holl gynlluniau a pholisïau newydd yn ystyried cydraddoldeb a hawliau.

## Rheoliadau a pholisïau sydd gennym eisoes

Mae llawer o'n cyfreithiau, cynlluniau a pholisïau yn canolbwyntio ar gydraddoldeb a hawliau. Maent yn cysylltu â'r cynllun hwn ac yn ein helpu i gyrraedd ein nodau ar gyfer bywydau pobl. Mae hyn yn cynnwys:

- **Cynllun Hawliau'r Bobl Anabl, Cymru (2025-2035)** — helpu i ddileu rhwystrau a gwneud yn siŵr bod gan bobl anabl eu hawliau.
- **Hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd: cynllun gweithredu** — gyda'r nod o leihau anghydraddoldebau rhywedd a gwella canlyniadau tecach ym mywydau pobl.
- **Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol** — gyda'r nod o wneud bywyd yn decach i bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gan gynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.
- **Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru** — yn gosod ein nod i Gymru fod y genedl fwyaf cyfeillgar i LHDTC+ yn Ewrop.

➡ Byddwn yn gwirio'r cynlluniau a'r polisïau sydd gennym eisoes i wneud yn siŵr eu bod yn cynnwys cydraddoldeb a hawliau dynol yn y ffyrdd gorau.

## Hawliau dynol

➡ Byddwn yn parhau i hyrwyddo, diogelu a pharchu hawliau pobl drwy:

- wneud deddfau newydd
- datblygu asesiadau effaith sy'n gwirio sut mae gwneud penderfyniadau'n effeithio ar hawliau pobl
- gadael i bobl wybod am eu hawliau.

## Deddfau

Mae'r cynllun hwn hefyd wedi'i adeiladu ar ddeddfau sydd gennym eisoes yng Nghymru yn cynnwys:

- **Deddf Cydraddoldeb 2010** — yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu yn gyfreithiol ac yn gwneud bywyd yn decach.
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** — gwneud yn siŵr ein bod yn meddwl am sut y bydd penderfyniadau a wnawn nawr yn effeithio ar genedlaethau'r dyfodol.
- **Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** — gwneud yn siŵr bod gweithwyr proffesiynol yn meddwl am gydraddoldeb pan fyddant yn cyflawni eu gwaith.
- **Dyletswydd Gymdeithasol-Economaidd** — gwneud yn siŵr bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd i leihau'r effaith y mae tlodi yn ei chael ar fywydau pobl.

➡ Byddwn yn gweithio gyda'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol. Byddant yn ein helpu i benderfynu beth arall ddylai ddod yn rhan o gyfraith Cymru i wella cydraddoldeb a hawliau dynol.





# Camau gweithredu - defnyddio ein grym a'n hadnoddau yn y ffyrdd gorau

## Arian

- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod cyllid a grantiau yn cefnogi ein nodau ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol.

## Atebolrwydd

- Byddwn yn gwneud yn siŵr bod popeth a wnawn yn glir a theg.
- Byddwn yn cymryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd.

## Dangos arweinyddiaeth

- Byddwn yn cynorthwyo arweinwyr a rheolwyr gan weithio i leihau anghydraddoldebau a chyflwyno'r cynllun hwn.

## Gwella prosesau ac effaith asesiadau

- Byddwn yn parhau i ddatblygu ein Hasesiadau Effaith cydraddoldeb a hawliau dynol.
- Byddwn yn edrych ar ffyrdd gwahanol o wella gwneud penderfyniadau.
- Byddwn yn gwella ein prosesu er mwyn lleihau'r rhwystrau mae pobl yn eu hwynebu a'u helpu i gael canlyniadau gwell.

## Gweithlu

- Byddwn yn parhau i gyflogi pobl o wahanol gefndiroedd fel bod ein gweithlu'n gynhwysol a ninnau'n gyflogwr teg.

## Gadael i bobl wybod

- Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun hwn ledled Cymru.
- Byddwn yn darparu hyfforddiant fel bod pobl yn deall ein nodau.

## Gweithio gyda'n gilydd

- Byddwn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol a phobl ledled Cymru ac yn gwrando arnynt.
- Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol, sefydliadau ac elusennau ledled Cymru.
- Byddwn yn gweithio gyda gwledydd eraill ledled y DU a'r byd.

## Ymgorffori hyn i'n gwaith

- Byddwn yn dod o hyd i gyfleoedd i roi cydraddoldeb a hawliau dynol yn ein prosesau a'n systemau.
- Byddwn yn arwain drwy esiampl, yn glir ynghylch ein penderfyniadau, ac yn annog ffyrdd newydd o weithio.

## Casglu tystiolaeth

- Byddwn yn datblygu ffyrdd i fesur pa mor dda mae'r cynllun hwn yn gweithio ac a ydym yn cyrraedd ein nodau.
- Byddwn yn casglu tystiolaeth a cyn adrodd ar ganlyniadau.





# Gwirio ei fod yn gweithio

Mae Cymru'n tyfu a newid. Bydd cynllun hwn yn cael ei wirio a'i ddiweddaru'n rheolaidd.

Byddwn yn gwrando ar brofiadau pobl i weld beth sydd wedi gwella a'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

Yn flynyddol, byddwn yn ysgrifennu adroddiad ar sut mae'r cynllun hwn yn gwella cydraddoldeb a hawliau dynol.

> Mae gwahanol gynlluniau yn mesur cydraddoldeb a hawliau dynol mewn gwahanol ffyrdd. Dros amser byddwn yn dod â'r rhain ynghyd i ddysgu mwy ynghylch bywyd yng Nghymru ac ychwanegu hynny i'n hadroddiad ar sut rydym yn cyrraedd ein nodau.

## Diolch am ddarllen hwn

Os ydych chi eisiau gwybod mwy, cysylltwch â:


Cydraddoldeb Strategol a Phrif Ffrydio
Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

YrIsadranCydraddoldebAHawliauDynol@gov.wales